

Adroddiad Blynyddol



CYNGOR
monmouthshire
COUNTY COUNCIL
sir fynywy

Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

1 Awst, 2015 - 31 Gorffennaf, 2016

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Fynwy Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

1 Awst, 2015 - 31 Gorffennaf, 2016

Cynnwys

	Tudalen
1. Crynodeb Gweithredol	3
2. Cyngor i'r Awdurdod Lleol	
2.1 Maes Llafur a Gytunwyd yn Lleol.	
6	
2.2 Safonau Addysg Grefyddol	7
2.3 Dulliau addysgu a'r dewis o ddeunyddiau addysgu	10
2.4 Hyfforddiant athrawon	
16	
2.5 Addoli ar y cyd	17
2.6 Cyngor i'r Awdurdod Lleol ar faterion eraill	
19	
3. Atodiadau:	
A) Nifer y cyfarfodydd	24
B) Cyfansoddiad CYSAG	24
C) Aelodaeth	25
D) Dosbarthiad yr Adroddiad Blynyddol	26

1. Crynodeb Gweithredol

- **Cystadleuaeth Art in Heaven RE Today**

Ar argymhelliad CYSAG, fe anfonwyd manylion cystadleuaeth Art in Heaven RE Today at bob ysgol.

- **Diwrnodau dathlu AG**

Fe gefnogodd CYSAG y Diwrnod AG ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6.

- **Bwletin Newyddion AG CYSAG**

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i gefnogi Bwletin Newyddion misol AG CYSAG ac yn ei dosbarthu i bob ysgol trwy Gymdeithas Prifathrawon Sir Fynwy.

- **Cyflwyniad CCYSAGauC: Datblygu gwaith y CYSAGau**

Fe roddodd aelodau CYSAG ystyriaeth fanwl i'r cyflwyniad a rannwyd gan CCYSAGauC ac ystyried y materion mewn perthynas â'u cyfarfodydd ac arferion eu hunain.

- **Cymrodoriaeth Farmington 2015-2016**

Fe ddosbarthwyd y cyfleoedd a ddarparwyd trwy Gymrodoriaeth Farmington i bobl ysgol gyda chefnogaeth yr Awdurdodau Lleol.

- **Gwasanaeth Cofio'r Holocost**

Darparwyd manylion i bobl ysgol ar Wasanaeth Cofio'r Holocost 2016.

- **Cymal Tynnu Allan**

Mae dogfen gyfarwyddyd i ysgolion ar reoli hawl rhiant i dynnu disgybl allan o AG yn cael ei pharatoi gan yr Ymgynghorydd AG a bydd ar gael i'w dosbarthu yn fuan.

- **AG a Bagloriaeth Cymru**

Ar gyngor CYSAG, fe ymgynghorodd yr Awdurdod Lleol ag ysgolion ar sut bydd darpariaeth AG yn cael ei reoli ochr yn ochr â chyflwyniad Bagloriaeth Cymru newydd o fis Medi 2015.

- **Adolygiad a Datblygiad y Cwricwlwm**

Fe ystyriwyd y diweddariadau rheolaidd ar adolygiad y cwricwlwm gan yr aelodau.

- **Newid i Fanyleb Arholiadau Safon Uwch a TGAU**

Fe ystyriodd CYSAG y materion yn ymwneud â manylebau newydd Safon Uwch a TGAU ar gyfer Astudiaethau Crefyddol a diweddarau ysgolion yn unol â hyn.

- **Defnydd o Incerts**

Fe gynghorwyd ysgolion sy'n defnyddio meddalwedd Incerts i sicrhau eu bod yn defnyddio'r set gywir o lefelau ar gyfer Addysg Grefyddol.

- **Bwletin CYTUN**

Fe ddsbarthwyd copïau o fwletin newyddion CYTUN i aelodau yn rheolaidd.

- **Crynodeb o Adroddiadau Arolygiadau**

Fe ystyriodd CYSAG grynodeb o adroddiadau arolygiadau er mwyn monitro safonau mewn Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

- **Adroddiadau Hunanwerthuso**

Mae CYSAG wedi parhau i ofyn am hunanwerthusiad o Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd oddi wrth ysgolion.

- **Cynnal cyfarfod CCYSAGauC**

Mae CYSAG Sir Fynwy yn falch o fod wedi cychwyn ar y paratodau i gynnal cyfarfod CCYSAGauC yn ystod Gwanwyn 2016.

- **Pen-blwydd Byddin yr Iachawdwriaeth yn 150**

Fe gynghorwyd ysgolion am wefan ysgolion/colegau Byddin yr Iachawdwriaeth <http://www.salvationarmy.org.uk/schools-religious-education> ble mae nifer o weithgareddau addysgu a dysgu ardderchog i'w defnyddio mewn ysgolion ar lefel cynradd ac uwchradd.

- **Rhaglen y BBC ar gyfer Ysgolion**

Fe gynghorwyd ysgolion am bum rhaglen, un yr un ar Islam, Cristnogaeth, Siciaeth, Iddewiaeth a Hindŵaeth sydd ar gael trwy'r BBC.

- **Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918 Grant £1,000 ar gyfer Ysgolion**

Fe gylchredwyd manylion o'r cyfle i ymgeisio am hyd at £1,000 i ddatblygu prosiectau creadigol ac arloesol i gofio'r rhyfel i ysgolion.

- **Straeon Fideo Lleisiau'r Cydwybod**

Mae straeon gwir y bobl a safwyd yn gadarn yn erbyn y rhyfel am resymau cydwybodol ar gael fel adnodd i ysgolion ac mae manylion wedi cael eu dosbarthu am y rhain.

- **Cymru dros Heddwch / Wales for Peace**

Fe roddwyd gwybod i ysgolion am brosiect Cymru dros Heddwch a fydd yn cynnwys rhaglen o weithgareddau dros y pedair blynedd nesaf.

- **Ymweliadau â Mosgiau**

Fe ddosbarthwyd manylion o gyfleoedd i ymweld â mosg Blaenau a mosgiau yng Nghaerdydd i ysgolion.

- **Clipiau Fideo**

Chwe stori ddigidol a grëwyd gan blant Moslemaidd 6-13 oed o Gaerdydd i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ac sy'n addas ar gyfer pob oedran ar gael am ddim, mae manylion wedi cael eu darparu i ysgolion.

- **Prosiect 'See The World Through Our Eyes'**

Atgoffwyd ysgolion o brosiect BTA - 'See The World Through Our Eyes' sy'n cynnwys cyflwyniad rhyngweithiol a ddarparwyd gan siaradwr brodorol sy'n hanu o'r wlad ddewisol sydd ar gael i bobl ysgol trwy GEM.

- **Gwasanaeth Benthg Arteffactau**

Mae'r casgliad cynhwysfawr hwn o Arteffactau AG Sir Fynwy bellach ar gael ym mhwm ysgol ledled y sir ac fe hyrwyddwyd y cyfleuster hwn i ysgolion.

- **Syniadau AG oddi wrth Newyddion AG**

Fe roddwyd gwybod i ysgolion am drosolwg o'r ddogfen Gwyliau Trwy Gydol y Flwyddyn ar gael gan REMW fel adnodd defnyddiol posib sy'n darparu modd o atgoffa disgyblion o rai (ond nid pob un) o wyliau pwysig o amrediad o grefyddau trwy gydol y flwyddyn.

- **Dathliadau crefyddau lleol cymunedol**

Fe atgoffwyd ysgolion i gadw llygad am ddathliadau crefyddau lleol cymunedol. Roedd rhifyn Bwletin Newyddion CYSAG yr hydref yn darparu manylion o rai o'r dathliadau Hindŵaidd ar gyfer hydref 2015.

- **Ymweliadau o Gymunedau Crefyddol**

Mae CYSAG Sir Fynwy yn ffodus i gael grŵp ardderchog o gynrychiolwyr ffydd ar ei bwyllgor sy'n fodlon ymweld ag ysgolion i siarad am bob agwedd o'u ffydd gyda disgyblion.

- **Newyddion AG**

Mae rhifynnau blaenorol o gylchgrawn Newyddion AG ar gael am ddim o <http://www.religious-education-wales.org/> ac mae'n adnodd da er mwyn cadw i fyny gyda datblygiadau ac arfer da ym maes AG ledled Cymru.

2. Cyngor i'r Awdurdod Lleol

2.1 Maes Llafur a Gytunwyd yn Lleol.

Dyddiad mabwysiadu'r Maes Llafur a Gytunwyd: Medi 2008

Dyddiad yr adolygiad diwethaf:

24 Ionawr, 2008

Dyddiad cyflwyno'r Maes Llafur a Gytunwyd:

Medi 2008

Y Maes Llafur a Gytunwyd 2008

Fe ddosbarthwyd copïau wedi'u hargraffu o'r maes llafur a gytunwyd i bob ysgol yn yr awdurdod. Fe dderbyniodd pob ysgol gynradd 2 gopi gyda phob ysgol uwchradd yn derbyn 4 copi. Roedd hyn yn ychwanegol i'r copi electronig a ddosbarthwyd eisoes.

Mae'r cysyniadau a'r sgiliau sy'n rhan o'r maes llafur a gytunwyd yn cydymffurfio yn llawn â dogfennaeth pynciau eraill y cwricwlwm a'r Cyfnod Sylfaen. Caiff ei gefnogi gan ddeunydd cyfarwyddyd cynhwysfawr.

Mae cyfleoedd hyfforddiant wedi cael eu darparu i gefnogi'r gwaith o roi'r Maes Llafur a Gytunwyd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar waith. Fe gynigwyd cwrs ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 / 3 ond roedd rhaid ei ganslo oherwydd nifer annigonol o ymgeiswyr. Mae ysgolion uwchradd wedi cael eu hysbysu o gyfleoedd hyfforddiant arall.

Adolygu

Fe ddechreuodd CYSAG adolygiad o'r Maes Llafur a Gytunwyd 2008 yn unol â'r gofyn o fewn y cyfnod o bum mlynedd. Mae cynrychiolwyr athrawon ar CYSAG wedi ystyried effeithlonrwydd y Maes Llafur a Gytunwyd ac wedi adrodd yn ôl i CYSAG mewn nifer o gyfarfodydd.

Yn gyffredinol, y teimlad oedd bod y rhaglenni astudio yn effeithiol, fodd bynnag, mae angen adolygu a diwygio'r disgrifiadau o'r lefelau.

Fe gytunwyd y dylai unrhyw newidiadau a wnaed i'r Maes Llafur a Gytunwyd ar gyfer AG fod yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, felly byddai'r adolygiad o'r Maes Llafur a Gytunwyd yn parhau tan fod canlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r adolygiad o'r Cyfnod Sylfaen yn hysbys.

Yn ei gyfarfodydd yng ngwanwyn a haf 2015, fe dderbyniodd CYSAG cyflwyniad yn ymwneud â'r Adolygiad o'r Cwricwlwm: Nodweddiion Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru.

Roedd aelodau'n teimlo ei bod yn dda gweld pwyslais ar Addysg Grefyddol yn yr adolygiad oherwydd ei bod yn argymhell ei bod yn parhau fel pwnc statudol ar y cwricwlwm. Roedd hefyd yn gadarnhaol gweld argymhelliad bod addysg grefyddol yn cael ei roi ym maes y Dyniaethau o Ddysgu a Phrofiad. Nodwyd na fod Addysg Grefyddol yn ofyniad statudol ar gyfer darpariaeth feithrinfa a'r gobaith oedd y byddai cyfle trwy Adolygiad Donaldson i newid hyn. Fe benderfynodd y Pwyllgor ymateb i'r adolygiad fel CYSAG cyn y dyddiad cau o'r 8fed o Fai 2015. Yn dilyn hyn, fe luniodd yr Ymgynghorydd AG ymateb i'r adolygiad ar ran CYSAG Sir Fynwy ac fe'i cyflwynwyd fel rhan o broses ymgynghori'r Sgwrs Fawr.

Bydd CYSAG yn parhau i fonitro ac ymateb i ddatblygiadau yn y maes hwn.

2.2 Safonau Addysg Grefyddol

Monitro Darpariaeth a Safonau

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol gynghorydd pwnc ar gyfer Addysg Grefyddol. Fe gyflogir Ymgynghorydd AG i gefnogi CYSAG. Nid yw hyn yn caniatáu amser ychwanegol am weithgareddau a chefnogaeth ychwanegol megis ymweld ag ysgolion a monitro darpariaeth. Mae CYSAG yn dadansoddi adroddiadau arolygu ysgolion ac yn cymryd unrhyw wybodaeth ohonynt sy'n berthnasol i Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Ers fframwaith arolygu 2010, mae hyn wedi dod yn gynyddol anodd gydag ychydig neu ddim tystiolaeth o Addysg Grefyddol neu addoli ar y cyd yn yr adroddiadau. Felly, mae gan CYSAG broses yn ei le i ofyn i ysgolion ddarparu eu gwerthusiad eu hunain o ddarpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn fuan ar ôl i'r ysgol gael ei harolygu gan Estyn.

Adroddiadau Arolygu a Hunanasesu

Fe dderbyniom grynodedb o adroddiadau arolygu a hunanasesu o bum ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd. Fe ystyriwyd crynodedb o'r adroddiad arolygu ar gyfer un ysgol arbennig ac un feithrinfa.

Yn ysgol 1, doedd dim cyfeiriad at Addysg Grefyddol yn yr adroddiad arolygu. Fe dderbyniwyd adroddiad hunanasesu manwl a defnyddiol gan yr ysgol a oedd yn tynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu ymhellach. Fe anfonwyd llythyr i'r ysgol yn canmol y meysydd o arferion da.

Yn ysgol 2, doedd dim cyfeiriad at Addysg Grefyddol yn yr adroddiad arolygu. Fe gyflwynodd yr ysgol adroddiad hunanwerthuso a oedd yn dynodi bod darpariaeth dda ar gyfer Addysg Grefyddol a bod safonau'r canlyniadau'n dderbyniol. Fe nododd yr ysgol meysydd i'w datblygu. Fe gysylltodd Ymgynghorydd AG CYSAG â'r ysgol i gynnig cyngor a chefnogaeth.

Yn ysgol 3, fe nodwyd na fod gan ddisgyblion CA2 fynediad llawn at rai pynciau, gan gynnwys Addysg Grefyddol. Fe dderbyniwyd adroddiad hunanasesu manwl a defnyddiol gan yr ysgol a oedd yn tynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da. Fe nododd yr ysgol mai un maes i'w datblygu oedd sicrhau bod gweithgareddau arfaethedig ar gyfer AG yn digwydd yn raddol ac yn gyson ar draws yr ysgol. Bydd y Swyddog Monitro Ysgolion yn monitro'r sefyllfa yn yr ysgol ac yn cynnig cefnogaeth yn ôl yr angen.

Yn ysgol 4, doedd dim cyfeiriad at Addysg Grefyddol yn yr adroddiad arolygu. Fe dderbyniwyd adroddiad hunanasesu manwl a defnyddiol iawn gan yr ysgol a oedd yn tynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da. Fe nododd yr ysgol nifer o feysydd i'w datblygu er mwyn codi safonau ymhellach. Fe anfonwyd llythyr i'r ysgol yn canmol y meysydd o arfer da ac yn cefnogi'r meysydd a nodwyd i'w datblygu.

Yn ysgol 5, doedd dim cyfeiriad at Addysg Grefyddol yn yr adroddiad arolygu. Roedd yr adroddiad hunanwerthuso a dderbyniwyd o'r ysgol yn fanwl iawn ac yn hynod o ddefnyddiol gan dynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da. Fe nodwyd nifer o feysydd i'w datblygu gan yr ysgol er mwyn codi safonau ymhellach. Fe anfonwyd llythyr i'r ysgol yn canmol y meysydd o arfer da. Roedd CYSAG hefyd yn cefnogi'r meysydd a nodir i'w

datblygu ac fe gymerwyd y cyfle i atgoffa'r ysgol o'r angen i fod yn ofalus wrth ddethol y set briodol o lefelau o fewn rhaglen Incerts i gadw cofnod o gynnydd disgyblion.

Yn ysgol 6, doedd dim cyfeiriad at Addysg Grefyddol yn yr adroddiad arolygu. Fe dderbyniwyd adroddiad hunanasesu llawn yr Adran AG gan yr ysgol a oedd yn tynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da. Fe nododd yr adran, o ran y rhan fwyaf o feysydd Cwestiwn Allweddol 1, bod y safonau yn gyffredinol yn dda, gyda rhai nodweddion ardderchog a rhai digonol.

Yn yr Ysgol Arbennig, fe nodwyd 'dros y tair blynedd diwethaf, mae pob disgybl sydd wedi gadael yr ysgol wedi cyflawni un cymhwyster neu ragor ar gyrsiau achrededig sy'n cyd-fynd yn dda â'u hanghenion a galluoedd unigol. Mae'r rhain yn cynnwys amrediad eang o gymwysterau lefel mynediad ar lefel 1, 2 a 3 a TGAU yn addysg grefyddol, addysg gorfforol, Saesneg a TGCh'. Mae CYSAG yn aros i dderbyn adroddiad hunanwerthuso'r ysgol.

Yn y Feithrinfa, doedd dim sôn am weithgareddau yn ymwneud ag Addysg Grefyddol. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn cael ei hyrwyddo'n briodol ac mae pwyslais cryf ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Adolygiad o Leoliadau nas Cynhelir

Fe gynhaliodd y Swyddog Gwella Ysgolion gyda chyfrifoldeb dros y blynyddoedd cynnar adolygiad o'r holl leoliadau nas cynhelir yn yr awdurdod er mwyn monitro darpariaeth addysg ddiwylliannol a chrefyddol.

Fe dderbyniodd CYSAG yr adroddiad a oedd yn cynnwys dau ddeg naw lleoliad. Roedd aelodau CYSAG yn falch o weld yr esiamplau niferus o arfer da a nodwyd. Fe nodwyd bod nifer o leoliadau'n archwilio gwyliau Nadolig, Pasg, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali a bod darpariaeth briodol yn cael ei wneud ar gyfer addysg foesol o fewn y Cwricwlwm ABCh, gyda gwerthoedd megis caredigrwydd yn cael eu hyrwyddo. Fe nododd CYSAG hefyd, mewn nifer o leoliadau, bod disgyblion yn rhyngweithio gyda, ac yn mwynhau, AG trwy gyfuniad o chwarae rôl, gwisgo i fyny, pypedau a straeon. Roedd aelodau hefyd yn falch o nodi bod nifer o leoliadau wedi sefydlu cysylltiadau cryf gyda'u heglwys leol a bod ymwelwyr o wahanol grefyddau yn ymweld â rhai lleoliadau.

Mewn ymateb i'r adolygiad, fe ysgrifennodd CYSAG lythyr at bob lleoliad yn eu llongyfarch ar eu cyraeddiadau. Fe ddosbarthwyd rhestr o gynrychiolwyr sy'n gallu darparu cefnogaeth i leoliadau Blynyddoedd Cynnar ynghyd â rhestr o adnoddau a argymhellir i annog lleoliadau i archwilio amrediad ehangach o agweddau AG er mwyn adeiladu ar y gwaith ardderchog a wneir am wyliau.

Arolwg o AG yng CA4 a goblygiadau Bagloriaeth Cymru

Yn 2014 - 2015, fe adroddwyd gan CCYSAGauC bod y Fagloriaeth Cymru newydd wedi effeithio ar ddyraniad amser AG mewn rhai ysgolion ledled Cymru. Felly fe argymhellodd CYSAG bod yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori gydag ysgolion ar sut bydd darpariaeth AG yn cael ei reoli ochr yn ochr â chyflwyniad y Fagloriaeth Cymru newydd o fis Medi 2015. Fe ymatebodd pob ysgol uwchradd yn yr awdurdod naill ai trwy'r arolwg a grëwyd gan CCYSAGauC neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Ymgynghorydd AG.

Fe nododd CYSAG y ddarpariaeth amrywiol o AG yn y pedair ysgol yn yr awdurdod. O fis Medi 2016, bydd dwy ysgol yn bodloni eu gofynion statudol i ddarparu AG yn CA4 trwy gyrsiau arholi AG ar gyfer pob myfyriwr. Fodd bynnag, bydd un o'r ysgolion hyn wedi colli amser AG i Fagloriaeth Cymru.

Bydd dwy ysgol yn cynnig cwrs llawn TGAU AG fel opsiwn. Bydd disgyblion eraill yn derbyn AG trwy Fagloriaeth Cymru yn unig. Mae un o'r ysgolion hyn eisoes wedi nodi na fod hyn yn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r ail ysgol yn bwriadu monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon.

- **Ysgol 1**

Mae mwyafrif y disgyblion yn astudio Cwrs Llawn AG ac mae'r gweddill naill ai'n dilyn Cwrs Byr AG neu Lefel Mynediad.

- **Ysgol 2**

Mae gan ddisgyblion yr opsiwn i gymryd cwrs llawn TGAU AG. Dylai'r sawl nad sy'n cymryd yr opsiwn astudio ychydig o AG trwy Fagloriaeth Cymru sy'n cael ei dysgu gan diwtoriaid dosbarth. Fodd bynnag, er bod cynlluniau gwaith manwl ac adnoddau gwersi'n cael eu darparu gan yr Adran AG, yn aml nid yw'r AG yn cael ei darparu fel y cynlluniwyd oherwydd gofynion ar amser. Ar ben hynny, ar adegau pan ddarperir yr AG trwy Fagloriaeth Cymru gan athrawon anarbenigol, mae'n anodd i'r Adran AG fonitro pa sgiliau AG y sonnir amdanynt.

- **Ysgol 3**

Bydd Bagloriaeth Cymru yn cael effaith negyddol mewn perthynas â'r ddarpariaeth AG yn yr ysgol. Mae darpariaeth eisoes wedi cael ei wneud i bob disgybl gymryd cwrs llawn TGAU AG. O fis Medi 2016, bydd rhai oriau cwricwlwm AG yn cael eu rhoi i Dystysgrif Ger Sgiliau Bagloriaeth Cymru ac felly, bydd pob disgybl yn cymryd cwrs byr AG yn unig, gyda'r cwrs llawn yn cael ei dysgu fel opsiwn grŵp.

- **Ysgol 4**

Yn flaenorol, roedd gan ddisgyblion yr opsiwn i gymryd naill ai cwrs byr neu ennill cwrs llawn TGAU AG (ar ffurf dau gwrs byr). O fis Medi 2016, bydd gan ddisgyblion yr opsiwn i gymryd cwrs llawn TGAU AG yn unig. Bydd y sawl nad sy'n cymryd yr opsiwn TGAU yn dysgu am elfennau o AG trwy Fagloriaeth Cymru gydag athrawon AG anarbenigol. Bydd y Pennaeth AG yn monitro'r ddarpariaeth i bennu effeithiolrwydd y system hon o ddarparu AG yn unol â gofynion statudol y maes llafur a gytunwyd.

Roedd aelodau CYSAG yn teimlo y byddai ysgolion yn dioddef trwy beidio â chael cymhwyster AG ac y dylid codi'r mater gyda CBAC a Llywodraeth Cymru. Roedd pryder y gallai Bagloriaeth Cymru arwain at doriadau yn amser statudol AG. Fe awgrymodd aelodau y dylai AG fod yn arholiad statudol er mwyn diogelu ei ddarpariaeth. Fe gyfathrebwyd pryderon CYSAG i CCYSAGauC a CBAC.

Bydd y Swyddog Gwella Ysgolion yn cyfathrebu gyda'r ysgol ac yn trafod darpariaeth er mwyn ceisio sicrhau bod y gofynion statudol yn cael eu bodloni gan bob ysgol ar gyfer pob disgybl.

2.3 Dulliau addysgu a'r dewis o ddeunyddiau addysgu

Fe ddarperir cyngor cynhwysfawr ar ddulliau addysgu a'r dewis o ddeunyddiau addysgu gan yr awdurdod. Mae hefyd gan ysgolion fynediad at gynghorydd proffesiynol CYSAG ar sail annibynnol er mwyn darparu cefnogaeth i ysgolion unigol.

Deunydd Cefnogi 2008

Cyfnod Sylfaen

Fe ddsbarthwyd deunydd cefnogi cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen o'r enw 'Think Topic' i bob lleoliad ac ysgol yn yr awdurdod yn ystod haf 2008.

Roedd cynhyrchu'r deunydd ar ffurf CD a chopi caled yn brosiect ar y cyd gyda dau awdurdod arall. Roedd gweithgor o athrawon, Swyddogion Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a'r Ymgynghorydd AG yn gyfrifol am ddatblygu deunydd cefnogi yn seiliedig ar bwnc gydag Addysg Grefyddol yn cael ei chynnwys pan fo'n briodol. Roedd deunydd cefnogi addysg grefyddol ychwanegol yn gynwysedig yn y pecyn oherwydd roedd cydnabyddiaeth bod y maes hwn o ddysgu yn aml angen cyfarwyddyd ychwanegol.

Cyfnod Allweddol 2 / 3

Roedd y Deunydd Cefnogi ar gyfer y Maes Llafur a Gytunwyd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2/3 ar gael i bob ysgol yn ystod hydref 2008. Mae'r deunydd yn cynnwys diweddariad o'r amlinelliad o gynllun hir dymor ar gyfer 'dosbarthiadau uniongyrchol' Cyfnod Allweddol 2 a chynllun hir dymor ar gyfer 'dosbarthiadau cymysg' dros gylch ddwy flynedd. Mae deuddeg uned o waith, gyda chwech ohonynt yn cael eu henghreiffio gyda samplau o waith disgyblion. Mae'r holl unedau'n hyrwyddo ymagwedd seiliedig ar sgiliau at AG ac yn darparu lluo o weithgareddau ac amcanion dysgu penodol. Nod yr unedau yw cefnogi'r defnydd o gyfres 'Developing Primary RE' a gynhyrchwyd gan RE Today Services ac mae ysgolion wedi cael eu hannog i brynu'r cyhoeddiadau hyn fel buddsoddiad.

Dylai'r deunydd cefnogi fod yn ddefnyddiol i athrawon Cyfnod Allweddol 3 o ran darparu mewnwleidiad i ddarpariaeth AG ar Gyfnod Allweddol 2 ac ansawdd a safon y gwaith a gyflawnir gan y disgyblion. Mae nifer o'r unedau'n nodi adnoddau a meysydd archwilio allweddol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a fydd yn adeiladu'n effeithiol ar y pethau a ddysgwyd yn flaenorol.

Mae'r adborth o ysgolion sy'n defnyddio'r deunydd cefnogi wedi bod yn hynod gadarnhaol. Dywed athrawon bod y deunydd yn hawdd ei defnyddio ac yn effeithiol iawn wrth gefnogi ymagwedd seiliedig ar sgiliau at Addysg Grefyddol. Bydd CYSAG yn parhau i fonitro effaith y defnydd o'r deunydd ar draws yr ysgolion yn yr awdurdod.

Cyhoeddiadau RE Today

I gyd-fynd â'r deunydd cefnogi a gynhyrchwyd yn lleol, fe awgrymwyd yn gryf bod ysgolion yn prynu 'Developing Primary RE' a 'Developing Secondary RE'. Fe ddaethpwyd i gytundeb ar gost gyda gostyngiad sylweddol gyda RE Today Services ac fe wahoddwyd ysgolion i wneud archeb trwy'r awdurdod. Yn sgil hyn, fe brynwyd yr adnoddau gan un deg chwech ysgol gynradd ac mae'r deunydd wedi cael ei groesgyfeirio gyda'r unedau gwaith yn y deunydd cefnogi ar gyfer y maes llafur a gytunwyd.

Deunyddiau addysgu

Ysgoloriaethau Farmington

Fe gynghorwyd ysgolion am y cyfle i ymgeisio am Ysgoloriaeth Farmington ac i roi gwybod i CYSAG am unrhyw geisiadau llwyddiannus. Mae ysgolheigion yn rhydd i astudio unrhyw agwedd o Addysg Grefyddol y dymunant ond bydd ffafriaeth yn cael ei roi i ymgeiswyr ble gellir gweld bod eu gwaith o werth uniongyrchol i'r dysgu o AG mewn ysgolion. Bydd yr Ysgoloriaeth yn talu am gost hyfforddiant, bwyd a llety ble fo'n briodol, teithio lleol hanfodol a, trwy drafodaeth gyda'r ysgol, cyflog athro llanw/athrawes lanw hyd at bwynt 6 ar y brif raddfa gyflog.

Gellir cymryd Ysgoloriaethau sy'n seiliedig yn yr ysgol/adref ar ffurf rhyddhad diwrnod, er enghraifft, am ddiwrnod yr wythnos dros dymor neu dros y flwyddyn am gyfnodau parhaol hyd at uchafswm o 30 niwrnod. Gellir cymryd Ysgoloriaethau sy'n seiliedig mewn prifysgol mewn bloc o hyd at wyth wythnos neu ar ffurf rhyddhad diwrnod o hyd ta 30 niwrnod. Am ragor o wybodaeth gall ysgolion ymweld â www.farmington.ac.uk neu e-bostio: farmington@hmc.ox.ac.uk

Gwasanaeth Cofio'r Holocost

Fe ddarparwyd manylion i bob ysgol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost 2016 ac fe soniwyd bod modd dod o hyd i adnoddau ar yr Holocost ar eu gwefan www.hmd.org.uk – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunyddiau addoli ar y cyd a thafleuni gwaith ar gyfer disgyblion cynradd i rai ôl-16.

Digwyddiad blynyddol yw Diwrnod Cofio'r Holocost sy'n digwydd ar Ionawr 27.

Fe sefydlwyd y Diwrnod yn y DU yn 2000 ac fe gynhaliwyd y Diwrnod Cofio cyntaf ym mis Ionawr 2001. Mae Ionawr 27 yn nodi dyddiad rhyddhad gwerysll crynhoi Auschwitz-Birkenau gan filwyr sofietaid yn 1945. Mae Diwrnod Cofio'r Holocost yn ceisio newid y dyfodol trwy ddysgu o'r gorffennol a'i gofio. Anogir ysgolion i gymryd rhan yn Niwrnod Cofio'r Holocost er mwn cofio dioddefwyr yr Holocost a digwyddiadau mwy diweddar o hil-laddiad. Mae'n darparu fframwaith i archwilio materion o foeldeb, ymatebion dynol, profiadau unigol, cyfrifoldebau a chwestiynau mwy yn ymwneud â rôl llywodraethau a democratiaethau. Mae'r llywodraeth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn annog ysgolion ac Awdurdodau Lleol i goffau'r digwyddiad hwn mewn rhyw fodd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a **deunyddiau addysgol am ddim** ar gyfer disgyblion cynradd i ôl 16 yn benodol ar thema Diwrnod Cofio'r Holocost ar-lein ar <http://education.hmd.org.uk>

Y thema ar gyfer 2016 yw 'Peidiwch â jyst gwyllo,'.

Nod y Diwrnod yr coffau'r Holocost, Erledigaeth y Natsïaid a hil-laddiadau dilynol - i gofio. Er mwyn adeiladu ar etifeddiaeth y Diwrnod yn 2015, eleni, bydd y thema yn edrych ymlaen gyda galwad clir i weithredu yn y presennol: canolbwyntio ar berthnasedd cyfoes yr Holocost a hil-laddiadau dilynol, a gan ystyried cyfrifoldebau unigol i beidio â bod yn wylwyr o drosedd casineb a rhagfarn, nac o fygythiadau rhyngwladol o hil-laddiad. Rhaid sicrhau na fod yr Holocost, Erledigaeth y Natsïaid a hil-laddiadau dilynol yn cael eu hanghofio, eu trin fel digwyddiadau dibwys nac yn cael eu gwadu. Bydd goroeswyr, dioddefwyr a ffoaduriaid yn parhau yn ganolog i'r Diwrnod; i nifer o oroeswyr, mae dylanwadu ar ymddygiad heddiw a pherthnasau gydag eraill yn ein cymunedau yn rhesymau hanfodol ar gyfer eu hymrwymiad dros siarad am eu profiadau. I rai, mae angen i'r ffocws fod ar weithrediadau unigol o garedigrwydd sy'n dynodi na fyddwn yn cau llygad pan fod y sawl o'n hamgylch yn wynebu rhagfarn neu annhegwch.

Y gobaith yw y bydd y deunyddiau'n ddefnyddiol i ysgolion ac mae CYSAG wedi gofyn iddynt roi gwybod am eu hymglymiad er mwyn clywed am brofiadau'r disgyblion a'r canlyniadau dysgu.

Prosiect 'See The World Through Our Eyes'

Mae prosiect y BTA - 'See The World Through Our Eyes' – yn cynnwys cyflwyniad rhyngweithiol gan siaradwr brodorol sy'n huanu o'r wlad a ddewiswyd. Mae pob sesiwn am hanner diwrnod fel arfer a gall gymryd un dosbarth fesul sesiwn.

Yn ystod y cyflwyniad, bydd diwylliant, gwyliau, arian cyfred, lleoliad, iaith (deialog byr) a chlipiau am leoedd a phobl yn cael eu harchwilio. Yn dilyn cyflwyniad, bydd dau neu dri gweithgaredd ymarferol sy'n gallu cynnwys ymarfer deialogau, dawnsio, celf a chrefft, bwyd (ble fo'n bosib) neu weithgaredd mwy penodol yn ymwneud â phwnc ar y cwricwlwm os yw'r athro/athrawes yn gofyn am hyn.

Mae unrhyw gostau ar gyfer yr adnoddau a ddefnyddir yn y gweithgareddau yn unig. Nid yw'r darparwyr yn codi tâl ar gyfer eu hamser oherwydd bod GEMS yn talu am hyn.

Am ragor o wybodaeth, gall ysgolion gysylltu â: Creusa Alessandrini

Ffôn: 07814392727 E-bost: Creusa.Alessandrini@newport.gov.uk

Pen-blwydd Byddin yr Iachawdwriaeth yn 150

Fe roddwyd gwybod i ysgolion bod eleni'n nodi Pen-blwydd Byddin yr Iachawdwriaeth yn 150. I ddathlu, roedd Byddin yr Iachawdwriaeth wedi bwci'r O2 yn Llundain am amrywiaeth o ddigwyddiadau o 1 - 5 Gorffennaf. Roedd y rhain yn cynnwys bandiau, grwpiau canu a grwpiau dawnsio o ledled y byd. Ar ddydd Sul 5 Gorffennaf, roedd gorymdaith i lawr y Rhodfa. Gall ysgolion ymweld â gwefan Byddin yr Iachawdwriaeth am ragor o wybodaeth a gwefan ysgolion/colegau Byddin yr Iachawdwriaeth yn benodol <http://www.salvationarmy.org.uk/schools-religious-education> ble mae gweithgareddau addysgu a dysgu ardderchog i'w defnyddio mewn ysgolion ar lefel cynradd ac uwchradd.

Adnoddau Cyfnod Allweddol 2 y BBC

Fe ddarlliedwyd rhaglenni AG newydd yn ddiwedd ar BBC 2 ym mis Mawrth 2015. Mae'r pum rhaglen hanner awr, un yr un ar Islam, Cristnogaeth, Siciaeth, Iddewiaeth a Hindŵaeth wedi cael eu cynhyrchu gyda chefnogaeth Lat Blaylock, ffigwr allweddol yn y byd AG. Ni fydd y BBC yn gwerthu'r rhaglenni hyn ar DVD, ond fe fyddant ar gael ar BBC Clips os gollodd yr ysgolion y cyfle i recordio'r darllediadau.

Grant £1,000 ar gyfer Ysgolion Uwchradd -

Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918

Fe roddwyd gwybod i bob ysgol uwchradd am y cyfle i ymgeisio i dderbyn grant o hyd at £1,000 i ddatblygu prosiectau creadigol ac arloesol i goffau'r rhyfel.

Mae pob ysgol yn gallu penderfynu'r ffordd gorau iddynt wneud hyn, a gallant hefyd weithio gydag ysgolion eraill i wneud prosiectau ar y cyd. Bydd y coffâd yn nodi can mlwyddyn ers y rhyfel a dylai annog sgwrs a thrafodaeth. Bydd y rhaglen yn helpu pobl ifanc i ddeall digwyddiadau a goblygiadau'r rhyfel ac yn cysylltu gyda digwyddiadau coffa eraill y Rhyfel Byd Cyntaf sy'n digwydd o amgylch y byd. *Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918* yw'r rhaglen swyddogol sy'n nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru. Mae ei gwefan yn bwynt canolog ar gyfer gwybodaeth ar [y](#)

[newyddion diweddaraf, digwyddiadau a phrosiectau a chyfeirio at wybodaeth ar ddiwyddiadau coffau](#) sy'n berthnasol i Gymru rhwng 2014 a 2018.

Dylai ysgolion â diddordeb e-bostio FWWCommemorationGrant@Wales.gsi.gov.uk i dderbyn pecyn ymgeisio ar gyfer y grant.

Lleisiau'r Cydwybod - Straeon fideo

Mae llawer o'r straeon ar hanes y Rhyfel Byd Cyntaf wedi canolbwyntio ar y niferoedd erchyll fu farw neu a gafodd eu hanafu, ac ar brofiadau'r milwyr.

Fe roddwyd gwybod i ysgolion am yr adnodd newydd hwn sy'n ceisio archwilio agwedd llai hysbys o Ryfel Byd Cyntaf trwy straeon pobl a safodd yn gadarn yn erbyn y rhyfel am resymau o gydwybod, ac a edrychodd am ffordd arall. Mae'r straeon yn taflu goleuni ar gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, ond hefyd yn berthnasol i'r gymdeithas gyfoes. Maen nhw'n arbennig o bwerus oherwydd eu bod yn caniatáu i bobl gyffredin ddweud eu straeon eu hunain, gyda lluniau a darluniadau i gyd-fynd â'r straeon.

Mae prosiect Cyfarfod Rhanbarth De Cymru o'r Gymdeithas Ffrindiau Crefyddol (Crynwyr). Mae'n cael ei ariannu'n hael gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree, gyda chyfraniadau o Gyfarfod Rhanbarth De Cymru, Cyfarfod Rhanbarth Gogledd Cymru, Cyfarfod Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Cyfarfod Rhanbarth Gororau'r De, Cyfarfod Ffrindiau yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Ysbryd Sulien, Cynefin y Werin a nifer o Gyfarfodydd y Crynwyr ac unigolion Crynwrol o ledled Cymru a'r tu hwnt.

<https://vimeo.com/channels/voicesofconscience>

Prosiect Cymru dros Heddwch

Trwy'r Bwletin Newyddion, fe roddwyd gwybod i ysgolion am grant £920,000 o Gronfa Dreftadaeth y Loteri am brosiect newydd, Cymru dros Heddwch / Wales for Peace.

Mae tîm newydd wedi cael ei benodi i gyflwyno'r rhaglen gyffrous hon o weithgareddau dros y pedair blynedd nesaf ac mae manylion ar gael ar y wefan

<http://www.wcia.org.uk/walesforpeaceteam.html>

Bydd y prosiect pedair blynedd yn archwilio un cwestiwn allweddol: Yn y 100 mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, sut mae Cymru wedi cyfrannu at yr ymgais i sicrhau heddwch? Y nod yw ymrwymo 100,000 o bobl mewn darganfod, rhannu a dysgu o dreftadaeth heddwch Cymru - y bobl a'r sefydliadau sydd wedi bod yn rhan o'r ymgais hwn, a'r straeon sydd dal heb eu hadrodd.

Bydd cyswllt hefyd yn cael ei greu rhwng y straeon a gwrthdrawiadau heddiw a barn gyfredol pobl ar gyflawni heddwch, fel bod treftadaeth yn stori fyw, berthnasol sy'n parhau i atseinio heddiw.

Bydd amrediad eang o weithgareddau'n cael eu trefnu rhwng 2015 a 2018, sy'n cwmpo i 5 prifategori:

- Straeon Milwyr – Dadorchuddio Effaith Rhyfel
- Ymgyrchwyr Heddwch – Darganfod Hanesion Cudd Cymru
- Heddwch Nawr – Etifeddiaeth Heddiw
- Cenedlaethau'r Dyfodol – Ysbrydoli Pobl Ifanc trwy Dreftadaeth
- Y Stori Gyfan – Arddangosfa Cymru dros Heddwch

Gall ysgolion gymryd golwg ar y dudalen [Gweithgareddau](#) er mwyn gweld beth sydd ar y gweill ym mhob un o'r categorïau hyn.

Mae'r prosiect megis dechrau, felly os hoffech dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf wrth i bethau ddatblygu, gallwch ymuno â'r rhestr bostio ar: [ymunwch â'n rhestr bostio](#).

Ymweliadau â Mosgiau

Fe atgoffwyd ysgolion bod y mosg lleol ym Mlaenau yn fodlon derbyn ymweliadau gan ysgolion. Mae'r Dr Muzafar Jilani yn gallu trefnu ymweliadau i'r mosg neu ymweliadau i ysgolion.

Gellir cysylltu ag ef ar 01873 855565 neu drwy e-bostio m.jilani733@btinternet.com

Fel arall, gellir cysylltu â Chyngor Mwslimiaid Cymru i drefnu ymweliad addysgol â mosg. Byddant yn trafod y posibilïadau gyda'r ysgol ac yn cynghori bod mwyafrif y mosgiau lleol yn gallu darparu ymweliad addas. Mae hefyd ganddynt grŵp o wirfoddolwyr sydd wrth law i ddangos disgyblion o amgylch cyfleusterau'r mosg a hefyd i wneud sgwrs fer ar Islam ac ateb cwestiynau yn ymwneud â'r agwedd benodol o Islam sy'n cael ei hastudio. Mae'r holl wirfoddolwyr a ddefnyddir wedi cael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Am ragor o wybodaeth ac i drefnu ymweliad, gall ysgolion gysylltu â:

Nahida Begum (Cynorthwydd Gweithredol i Saleem Kidwai OBE, KFO, FRSA, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Mwslimiaid Cymru) Ffôn: 029 2048 7667 estyniad 214 E-bost: nahida@muslimcouncilwales.org.uk

Clipiau Fideo

Mae cyfres ddefnyddiol iawn o chwe stori ddigidol a grëwyd gan blant Moslemaidd 6-13 oed o Gaerdydd i'w defnyddio yn yr ystafell ddogfen ac yn addas ar gyfer pob oedran ar gael am ddim ar <http://vimeo.com/channels/learningtobeamuslim> ac fe atgoffwyd ysgolion o'r adnodd gwerthfawr hwn.

Cyfarwyddyd ar Reoli Tynnu Disgyblion Allan o AG

Mae'r Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu dogfen gyfarwyddyd ar gyfer ysgolion ar reoli'r hawl i dynnu allan o AG. Yn ystod yr ymgynghori roedd cefnogaeth i'r ddogfen gan ddisgyblion a nifer o gymunedau ffydd. Fe fydd yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog gan CCYSAGauC ac ar gael i bob ysgol ledled Cymru.

Diwrnodau dathlu AG

Fe weithiodd CYSAG gydag Ysgol Cil-y-Coed i ddarparu diwrnod AG ar gyfer holl ddisgyblion Bl 6 o'r ysgolion uwchradd yn ei chlwstwr. Dangosodd yr adborth gan staff yr ysgol gynradd a'r disgyblion eu hunain bod y diwrnod yn llwyddiant mawr. Roedd y gweithdai a ddarparwyd gan gynrychiolwyr ffydd CYSAG ac fe fuddiodd y disgyblion a'r staff yn fawr o'r profiad hwn.

Gwasanaeth Benthg Arteffactau

Yn dilyn cau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion, mae'r casgliad cynhwysfawr o Arteffactau AG Sir Fynwy bellach wedi ei leoli mewn pum ysgol ledled y sir. Tra bod dim system ffurfiol o fenthgca'r adnoddau, gellir gwneud trefniadau anffurfiol trwy gysylltu â'r ysgol yn unigol. Dyma'r ysgolion ble cedwir yr adnoddau: Ysgol Gynradd Cross Ash, Ysgol Gynradd Goytre Fawr, Ysgol Gynradd Llantilio Pertholey, Ysgol Gynradd Gwndy ac Ysgol Gynradd Osbaston. Hyd yma, nifer fechan o ysgolion sydd wedi gofyn i fenthgca'r arteffactau, fodd bynnag, mae pob un o'r ysgolion ble cedwir yr arteffactau yn gwneud defnydd da o'r adnoddau gyda'r disgyblion yn eu hysgolion eu hunain.

Syniadau AG oddi wrth Newyddion AG

Mae trosolwg o Wyliau Trwy Gydol y Flwyddyn ar gael gan REMW a gallai fod yn adnodd defnyddiol sy'n darparu modd o atgoffa disgyblion o rai (ond nid pob un) o wyliau pwysig o amrediad o grefyddau trwy gydol y flwyddyn.

Dathliadau crefyddau lleol cymunedol

Fe atgoffwyd ysgolion i gadw llygad am ddathliadau crefyddau lleol cymunedol. Roedd rhifyn yr hydref o Fwletin Newyddion CYSAG yn darparu manylion o rai dathliadau Hindŵ lleol ar gyfer hydref 2015.

Ymwelwyr o Gymunedau Ffydd

Mae gan CYSAG y frain o gael grŵp gwych o gynrychiolwyr ffydd ar ei bwyllgor sy'n fodlon ymweld ag ysgolion a siarad am agweddau o'u ffydd gyda disgyblion. Bydd nifer o ysgolion wedi cwrdd â nifer o'n cynrychiolwyr ffydd ar y Diwrnodau AG a gynhelir gan Ysgolion Uwchradd. Efallai bydd rhai o'r sawl a oedd yn rhan o'r diwrnodau yn fodlon darparu gweithdy tebyg mewn ysgolion unigol. Mae rhestr gyfredol o gysylltiadau ar gael ac fe anogir ysgolion i wneud defnydd o'r adnodd gwerthfawr hwn.

Cystadleuaeth Art in Heaven RE Today

Ar argymhelliad CYSAG, fe anfonwyd manylion o gystadleuaeth Art in Heaven RE Today i bob ysgol.

Newyddion AG

Mae rhifynnau blaenorol o gylchgrawn Newyddion AG ar gael am ddim o <http://www.religious-education-wales.org/> ac mae'n adnodd da er mwyn cadw i fyny gyda datblygiadau ac arfer da ym maes AG ledled Cymru.

Bwletin Newyddion AG CYSAG

Mae Bwletin Newyddion AG misol CYSAG yn cael ei dosbarthu i bob ysgol trwy Gymdeithas Penaethiaid Sir Fynwy. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau addysgu a chefnogaeth a mentrau lleol a chenedlaethol.

2.4 Hyfforddiant athrawon

CCYSAGauC

Fe nodwyd bod CCYSAGauC wedi cytuno i ddarparu cyrsiau hyfforddiant ar gyfer athrawon ledled Cymru a bod rhaglen o gyrsiau posib yn cael ei hystyried. Byddai hwn yn cael ei gyhoeddi i ysgolion cyn gynted â bod y manylion yn cael eu cadarnhau.

Hyfforddiant Consortiwm Lleol

Fe gytunwyd, gan na fod cyrsiau hyfforddiant ar gyfer AG wedi cael eu darparu'n lleol am y ddwy flynedd diwethaf, y byddai'r Ymgynghorydd AG yn ystyried trefnu rhai cyrsiau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Byddai'r rhain yn cael eu hwyluso gan Wasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De Cymru a byddai manylion yn cael eu hanfon i ysgolion cyn gynted ag y bo modd.

2.5 Addoli ar y cyd

Canfyddiadau'r Arolwg

Fe barhaodd CYSAG i ddadansoddi adroddiadau arolygu er mwyn monitro darpariaeth addoli ar y cyd mewn ysgolion o fewn yr awdurdod, er bod y dystiolaeth yn gyfyngedig. Fe ofynnir am adroddiadau hunanwerthuso gan ysgolion er mwyn darparu manylion o ddarpariaeth addoli ar y cyd.

Fe dderbyniom crynodeb o adroddiadau arolygu a hunan-werthusiadau gan bum ysgol gynradd. Fe ystyriwyd adroddiad arolygu ar gyfer un ysgol arbennig. Roedd yr adroddiadau arolygu yn dynodi bod pedair o'r ysgolion cynradd yn bodloni gofynion statudol. Mae un ysgol sydd ddim yn bodloni'r gofynion statudol oherwydd bod rhai plant yn cael eu tynnu allan o addoli ar y cyd ar un diwrnod yr wythnos am gymorth ychwanegol.

Yn ysgol 1, doedd dim cyfeiriad at addoli ar y cyd yn yr adroddiad arolygu. Fe dderbyniwyd adroddiad hunanasesu manwl a defnyddiol gan yr ysgol a oedd yn tynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu ymhellach.

Yn ysgol 2, doedd dim cyfeiriad at addoli ar y cyd yn yr adroddiad arolygu. Fe gyflwynodd yr ysgol adroddiad hunanasesu manwl a defnyddiol a oedd yn dynodi bod yna ddarpariaeth dda ar gyfer addoli ar y cyd, ac roedd esiamplau o arfer da a meysydd i'w datblygu ymhellach.

Yn ysgol 3, doedd dim cyfeiriad at addoli ar y cyd yn yr adroddiad arolygu. Fe dderbyniwyd adroddiad hunanasesu manwl a defnyddiol gan yr ysgol a oedd yn tynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu ymhellach.

Yn ysgol 4, fe nododd yr adroddiad arolygu na fod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol oherwydd bod rhai plant yn cael eu tynnu allan o addoli ar y cyd ar un diwrnod yr wythnos am gymorth ychwanegol. Fe dderbyniwyd adroddiad hunanasesu manwl a defnyddiol gan yr ysgol a oedd yn cadarnhau eu bod wedi mynd i'r afael â'r mater o beidio â chydymffurfio. Roedd yr hunanasesiad hefyd yn nodi nifer o feysydd o arfer da.

Yn ysgol 5, doedd dim cyfeiriad at addoli ar y cyd yn yr adroddiad arolygu. Fe dderbyniwyd adroddiad hunanasesu manwl a defnyddiol gan yr ysgol a oedd yn tynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu ymhellach.

Yn yr Ysgol Arbennig, fe nodwyd na fod yr ysgol yn cydymffurfio â'i dyletswydd statudol i ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd. Mae CYSAG yn aros i dderbyn adroddiad hunanwerthuso'r ysgol ac mae'r Swyddog Gwella Ysgolion yn monitro'r sefyllfa.

Cyfarwyddyd ar Addoli ar y Cyd

Yn 2010, fe ddosbarthwyd cyfarwyddyd a gynhyrchwyd yn lleol ar ddarpariaeth addoli ar y cyd i bobl ysgol yn yr awdurdod ynghyd â dogfen gyfarwyddyd Estyn ar addoli ar y cyd a chyfarwyddyd CCYSAGauC ar ddarpariaeth yn y chweched dosbarth.

Ar argymhelliad cynrychiolwyr ffydd CYSAG, mae ysgolion hefyd wedi cael eu cynghori y dylai'r cyfarwyddyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer clerigwyr sy'n ymweliad â'r ysgol sy'n cyfrannu at yr addoli ar y cyd yn yr ysgol. Ym mis Gorffennaf 2012, fe ddisbarthwyd Cyfarwyddyd CCYSAGauC ar addoli ar y cyd i bob ysgol.

Penderfyniadau

Ni dderbyniodd CYSAG unrhyw benderfyniadau ar gyfer y flwyddyn hon.

2.6 Cyngor i'r Awdurdod Lleol ar faterion eraill

Materion Lleol:

Grŵp Cynhwysiant Sir Fynwy

Mae CYSAG yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Cynhwysiant Sir Fynwy gan yr Ymgynghorydd AG sy'n mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd.

Bwletin Polisi CYTUN

Roedd aelodau CYSAG yn derbyn Bwletin Polisi Cytun yn rheolaidd er gwybodaeth. Roedd aelodau'n cytuno y byddai'n ddefnyddiol derbyn diweddariadau rheolaidd, yn arbennig yn ymwneud â chyfieithwyr Affgan oherwydd bod Sir Fynwy wedi cael ei chynnig fel lle o groeso.

Cyflwyniad CYSAGau: Datblygu gwaith CYSAGau

Fe roddodd aelodau CYSAG ystyriaeth fanwl i'r cyflwyniad a rannwyd gan CCYSAGauC ac ystyried y materion mewn perthynas â'u cyfarfodydd ac arferion eu hunain. Roedd cydnabyddiaeth bod CYSAG Sir Fynwy, trwy ei aelodau, yn weithgar iawn yn cefnogi ysgolion trwy ddarparu cyngor rheolaidd a dosbarthu adnoddau i ysgolion, ac yn benodol trwy ddarparu Diwrnodau AG ar gyfer holl ddisgyblion Blwyddyn 6. Ar ben hynny, mae nifer o'u cynrychiolwyr ffydd yn gwneud ymweliadau unigol i ymweliadau i gefnogi gyda gwersi AG. Bydd CYSAG yn parhau i ystyried dulliau ychwanegol o gefnogi ysgolion trwy ei waith.

Cynnal Cyfarfod CCYSAGauC

Mae CYSAG Sir Fynwy yn falch o fewn wedi cychwyn ar y paratodau i gynnal cyfarfod CCYSAGauC yn ystod Gwanwyn 2016. Bydd hwn yn digwydd yn Neuadd y Sir, Brynbuga ar 3 Mawrth 2017. Bydd croeso yn cael ei ymestyn gan Gadeirydd y Cyngor a hefyd gan Gadeirydd CYSAG.

Plant Blwyddyn 1 yn Ysgol Gynradd Gilwern

Mae Melanie Millington, o Ysgol Gynradd Gilwern a phlant a staff Blwyddyn 1 yn Ysgol Gilwern yn mwynhau rhannu gwybodaeth am eu bywydau yn y dosbarth, felly pan gynigodd aelod o'r dosbarth i rannu stori, gweithgaredd neu ddarn o gacen i ddathlu diwrnod sanctaidd Bahá'í, fe neidiodd bawb at y cyfle i ddathlu amrywiaeth credoau gyda'r dosbarth.

Diolch i'r teulu a ddarparodd yr holl ddeunyddiau, ac i'r athrawes am rannu ac esbonio stori genedigaeth a phlentyndod y Bab. Yn dilyn hyn, fe gafwyd darlenniad o lyfr gweddïau, cacen i ddathlu a sesiwn lliwio hamddenol iawn gyda phawb yn mwynhau'n fawr.

Diwrnod AG Blwyddyn 6 yn Ysgol Cil-y-Coed

Yn dilyn llwyddiant diwrnodau tebyg yn ystod blynyddoedd blaenorol, bu disgyblion Blwyddyn 6 clwstrwr Ysgol Cil-y-Coed fwynhau diwrnod gwych arall o weithdai a ddarparwyd gan gynrychiolwyr ffydd CYSAG.

Bu chwe ysgol gynradd ymweld â'u hysgol uwchradd clwstrwr ble gynhaliodd yr Adran AG y diwrnod. Fe gymerodd pob dosbarth o ddisgyblion ran mewn pum gweithdy deugain munud o hyd yn ystod y diwrnod wedi'u darparu gan gynrychiolwyr o'r crefyddau Hindŵaeth, Cristnogaeth, Bwdhaeth, Bahá'í, Islam a Siciaeth.

Roedd y diwrnod yn rhoi cyfle i'r disgyblion ymrwymo mewn amrywiaeth o weithgareddau addysgol a chwrdd â dilynwyr gwahanol grefyddau a oedd yn gallu siarad â hwy am bwysigrwydd gwahanol agweddau o'u crefyddau.

Mae'r ymatebion canlynol yn cynrychioli detholiad bychan o safbwyntiau am y diwrnod a rannwyd gan y disgyblion.

"Fe wnes i fwynhau popeth heddiw ond fy hoff beth oedd gwers Muhammad ar Islam. Roedd e'n wych ac roedd popeth roedd e'n dweud yn ddiddorol iawn. Fe yw'r athro gorau erioed ac rydw i wedi dysgu cymaint o bethau newydd"

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Durand.

"Roedd heddiw'n hwyl oherwydd nawr rydw i'n gwybod sut mae pobl o grefyddau eraill yn teimlo. Felly nawr gallaf ddeall sut maen nhw'n teimlo."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Durand



"Fy hoff ran o'r diwrnod oedd dysgu am ddewisiadau da a chrefydd Bahá'í ."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Y Ffin.

"Roedd y rhan fwyaf o bobl yn credu y byddai'r diwrnod yn ddiflas, ond i fi roedd e'n llawer o hwyl. Roedd pob gweithgaredd yn llawer o hwyl!"

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Parc y Castell.



"Fe wnes i fwynhau pob gweithdy heddiw. Fe wnes i fwynhau Sîc, Islam a Hindw̄ fwyaf. Fe ddysgais lawer o bethau newydd yn ogystal â chael llawer o hwyl."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Parc y Castell.

"Fe wnes i fwynhau Bwdhaeth oherwydd bod popeth mor ddiddorol am eu hobiau a'u ffordd o fyw."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Durand



"Fe ddysgom am grefyddau diddorol heddiw. Yn bennaf, fe wnes i fwynhau'r sesiwn myfyrio yn y gweithdy Bwdhaeth."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Llanddewi.

"Ro'n i'n hoffi gwneud Bwdhaeth yn fawr oherwydd roedd yn hawdd ei deall ac roeddwn i'n hoffi gwrando a siarad am sut mae'n rhaid i chi ladd i oroesi."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rowan Williams.

"Roedd yn wych dysgu am y gwahanol grefyddau."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Llanddewi.

"Fe wnes i fwynhau Hindw̄aeth fwyaf oherwydd ei bod yn cynnwys gêm gof ble roeddem yn tynnu llun o'r eitemau pwysig roeddem yn eu cofio o'r wers. Fe ddysgais hefyd fod yr Hindwiaid yn rhoi losin arbennig



i Dduw."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Durand.

"Fe ddysgais fod yr Hindwiaid yn mynd â phethau gwahanol, fel bwyd, i gynnig i Dduw. Fe wnes i fwynhau troi'r dillad Sîc ymlaen."

Disgybl yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rowan Williams.

"Roedd heddiw yn ffantastig. Fe ddysgais am grefydd ac roeddwn yn hoffi dysgu am Fwdhaeth."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Parc y Castell.

"Rydw i wedi dysgu bod Hindwiaid yn cynnig reis, losin, dŵr, blodau a chanhwyllau i'w Duwiau. Rydw i hefyd wedi mwynhau dysgu am Islam a sut bo nhw ddim yn bwyta rhwng 2:40pm a 9:30pm."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Durand.

"Rydw i wedi dysgu mwy am Gristnogaeth nag oeddwn i'n meddwl. Fe wnes i wir fwynhau'r wers."

Disgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Durand



Bydd y gwerthusiadau a dderbyniwyd gan athrawon yn ein helpu i adeiladu ar y llwyddiant hwn yn y blynyddoedd i ddod.

"Diwrnod llwyddiannus iawn, wedi'i ei drefnu'n dda gyda phopeth yn rhedeg yn llyfn. Roeddwn yn arbennig o hapus gyda'r amrywiaeth o grefyddau a drafodwyd."

Sue Thomas, Athrawes blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Llanddewi.

"Roedd y diwrnod yn dda iawn. Roedd gan y plant ddiddordeb ym mwyafrif y gweithgareddau. Roedd yr amrywiaeth o weithgareddau yn cadw'u sylw; drama, canu, gwyllo a darlunio."

Sue Wilsher, Athrawes blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Parc y Castell.

"Roedd pob sesiwn yn wahanol ac mor ddiddorol i'r plant. Roedd y diwrnod yn llwyddiannus iawn. Roedd ganddynt sylw fy mhiant ar bob adeg."
Louise Farrant, Ysgol Gymraeg Y Ffin

Materion Cenedlaethol:

CCYSAGAUC

Mae CYSAG Sir Fynwy yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac mae ei gynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Cynrychiolwyr etholedig CYSAG Sir Fynwy yng nghyfarfodydd CCYSAGauC yw cynrychiolydd Bahá'í Mrs. Sue Cave, Mrs. Sharon Perry-Phillips, cynrychiolydd athrawon a Gill Vaisey, Ymgynghorydd AG. Mae'r cronfeydd yr Awdurdod Lleol yn talu am gostau teithio ar gyfer cynrychiolwyr athrawon i fynychu cyfarfodydd CCYSAGauC.

Mae Gill Vaisey hefyd yn cynrychioli Sir Fynwy ar Bwyllgor Gweithredol CCYSAGauC.

Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (NAPfRE)

Mae Ymgynghorydd AG i Sir Fynwy, Gill Vaisey, yn aelod o NAPfRE ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran CYSAG. Yn y modd hwn mae CYSAG yn gallu cadw i fyny gyda datblygiadau yng Nghymru a chwarae rôl allweddol wrth hysbysu penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar addysg grefyddol.

Ymgynghorydd AG

Mae Gill Vaisey yn cynrychioli Gymdeithas Cymru y CYSAGau ar Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr ac yn mynychu ei gyfarfodydd chwemisol ble mae hi'n gallu cynrychioli CYSAGau ledled Cymru a dod i wybod am ddatblygiadau cenedlaethol ledled Cymru a Lloegr.

Adolygiad o'r Cwricwlwm

Mae CYSAG wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ledled 2015 - 2016 a byddant yn parhau i fonitro ac ymateb i ddatblygiadau yn y maes hwn. Yn ei gyfarfod haf, fe drafododd CYSAG y goblygiadau ar gyfer Addysg Grefyddol os daw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Roedd aelodau'n cydnabod, er mwyn i Addysg Grefyddol ddod yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd bod angen newid yn y ddeddfwriaeth. Fe soniodd yr Ymgynghorydd AG wrth y pwyllgor am y cyfarfod cadarnhaol a gynhaliwyd rhwng NAPfRE (y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol) a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ble drafodwyd rhai o'r materion yn ymwneud ag Addysg Grefyddol ac fe dynnwyd sylw at y cwricwlwm newydd a'i drafod yn fanwl. Fe drafodwyd materion megis y sefyllfa gyfredol gydag Addysg Grefyddol yn rhan o'r Cwricwlwm sylfaenol ond nid y Cwricwlwm Cenedlaethol, y cymal o'r hawl i dynnu allan, a'r oedran pan ddaw Addysg Grefyddol yn statudol ar gyfer disgyblion yn ystod y trafodaethau hyn.

Fe benderfynodd CYSAG i barhau i fonitro'r sefyllfa ac i fod yn barod i ymateb i Lywodraeth Cymru os oes ymgynghoriad pellach gyda rhanddeiliaid.

Newid i Fanylebau Arholiadau Safon Uwch a TGAU

Fe ystyriodd CYSAG y materion yn ymwneud â'r manylebau newydd ar gyfer arholiadau AG Safon Uwch a TGAU. Fe roddwyd diweddariad i ysgolion gydag unrhyw ddatblygiadau pan roeddent yn hysbys wrth i CYSAGau (Cymdeithas Cymru y CYSAGau) a NAPfRE (Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol) barhau i gynrychioli diddordebau athrawon a myfyrwyr mewn perthynas ag adolygu manylebau AG Safon Uwch a TGAU.

Defnydd o Incerts

Yn dilyn pryderon a rannwyd gan ysgolion am wybodaeth anghywir gan staff ar Incerts, fe atgoffwyd ysgolion unwaith eto i sicrhau eu bod yn defnyddio'r set gywir o Lefelau ar gyfer Addysg Grefyddol. Ar gyfer ysgolion a gynhelir a'r rhai y'u rheolir yn wirfoddol yng Nghymru, y meini prawf asesu cywir o fewn rhaglen Incerts yw 'AG - Fframwaith Enghreifftiol' sy'n defnyddio'r Disgrifiadau Lefel statudol ar gyfer AG yng Nghymru yn unol â'r Maes Llafur a Gytunwyd yn lleol.

Fe ysgrifennodd CYSAG Sir Fynwy at gynhyrchwyr Incerts gyda'r nod o sicrhau bod y cyngor cywir yn cael ei roi i ysgolion mewn perthynas â'r defnydd o'r rhaglen ar gyfer Addysg Grefyddol, fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn ateb. Mae CYSAG wedi cynghori ysgolion bod pob Maes Llafur a Gytunwyd yng Nghymru yn cynnwys y Disgrifiadau Lefel ar gyfer AG fel y cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a bod y rhain yn llunio rhan o'r maes llafur statudol ac yn ceisio sicrhau cysondeb o safonau disgwylidig ledled yr holl ysgolion a gynhelir a'r rhai y'u rheolir yn wirfoddol.

Fe anogwyd ysgolion i sicrhau bod y fersiwn cywir yn cael ei defnyddio os yw ysgolion yn penderfynu defnyddio'r rhaglen hon er mwyn olrhain cynnydd y disgyblion yn AG.

3. Atodiadau

Atodiad A) **Nifer y cyfarfodydd**

Bu CYSAG Sir Fynwy gwrdd tair gwaith y flwyddyn hon:
20 Tachwedd, 2015
11 Mawrth, 2016
10 Mehefin 2016

Atodiad B) **Cyfansoddiad CYSAG Sir Fynwy**

- 6 Cynrychiolydd o'r Awdurdod Addysg Lleol
- 12 Cynrychiolydd o Enwadau Crefyddol
- 7 Cynrychiolydd o Sefydliadau Athrawon
- 2 Le Cyd-etholedig

Mae'r pwyllgor hefyd yn cael ei gefnogi gan y swyddogion canlynol:
Clerc i CYSAG
Swyddog Gwella Ysgolion gyda chyfrifoldeb dros AG
Ymgynghorydd AG

Atodiad C) **Aelodaeth Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
Cyngor Sir Fynwy**

Ar 31 Gorffennaf, 2016:

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol:

Y Cynghorydd E. J. Hackett Pain Cadeirydd
Y Cynghorydd P. Clarke
Y Cynghorydd D.W.H. Jones
Y Cynghorydd B. Strong
Y Cynghorydd A. Easson
Y Cynghorydd J. George

Cynrychiolwyr Enwadau Crefyddol

Eglwysi Rhyddion (4 lle):

Cymdeithas Bedyddwyr Gwent Y Parchedig Dr. P. Baines
Byddin yr Iachawdwriaeth Uwchgapten S. Wilson
2 le gwag

Yr Eglwys yng Nghymru	Mrs. V. Howells
Yr Eglwys Rufeinig Gatholig	Lleian D. O'Donnell
Bahá'í	Mrs. S. Cave
Bwdhaeth	Ngakma Shé-zér Chatral
Hindŵaeth	Mr. S. Sharma
Iddewiaeth	Mr. A. Davidson
Siciaeth	Mrs. N. Baicher
Islam	Mrs. F. Jilani

Cynrychiolwyr Cymdeithasau Athrawon

NASUWT	Mr. A. Jones
NAHT	Ms. A. Wiggins
ATL	Mrs. R. Davies
NUT	Mrs. C. Cooper
ATL	Mrs. S. Perry Phillips
NUT	Ms. M. Millington
NUT	Mr. J. Thomas

Cyd-etholedig

Mrs. K. Fitter
Mr. S. Mock

Swyddogion:

Ms G. Vaisey Ymgynghorydd AG

Mrs. S. Randall-Smith Swyddog Gwella Ysgolion
Mrs. R. Williams Clerc i CYSAG
Atodiad D) **Dosbarthiad yr Adroddiad Blynyddol**

Anfonwyd copi o'r adroddiad blynyddol hwn at y sefydliadau canlynol:

- Cyngor Llawn Cyngor Sir Fynwy
- Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a chynhelir Cyngor Sir Fynwy
- Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn Sir Fynwy
- Prifysgol Cymru, Casnewydd
- Llywodraeth Cymru / Yr Adran Addysg a Sgiliau
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae ar gael i'r CCYSAGauC a'r holl Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru trwy wefan Cymdeithas Cymru y CYSAGau.